BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

24 Hydref 2018

Annwyl bawb

**Adolygiad o gymorth staffio i'r Aelodau a'r Weithdrefn Ddisgyblu a'r Weithdrefn Gwyno: Cynigion ymgynghori**

Ysgrifennaf atoch yng nghyd-destun ymgynghoriad sydd wedi'i lansio gan y Bwrdd Taliadau.

*Adolygiad o'r cymorth staffio i'r Aelodau*

Fel y byddwch o bosibl yn gwybod, mae'r Bwrdd wedi cynnal dau ymgynghoriad fel rhan o'i **adolygiad o gymorth staffio i'r Aelodau**. Roedd y cyntaf o'r rhain yn canolbwyntio ar gyflwyno rhagor o hyblygrwydd i **Aelodau**, tra roedd yr ail yn trafod rhoi hyblygrwydd i **Bleidiau Gwleidyddol** o ran defnyddio eu lwfansau.

Trafododd y Bwrdd y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ei adolygiad, yng nghyd-destun y materion hynny sy'n weddill yn ei gylch gorchwyl, yn **ei gyfarfod ar 11 Hydref**, a chytunodd i ymgynghori ar ddiwygio nifer o ddarpariaethau yn ei Benderfyniad. Mae manylion llawn yr ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi ar **wefan y Bwrdd**, ac maent i'w gweld yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Nodir crynodeb o'r cynigion ymgynghori isod:

- diwygio sut y caiff cyflogaeth aelodau o deulu'r Aelod a phartneriaid ei ariannu;
- cyflwyno diwrnodau braint i staff cymorth;
- cyflwyno polisi ffurfiol ynghylch absenoldeb tosturiol i staff cymorth;
- addasu cyflog staff cymorth ym mis Ebrill bob blwyddyn yn ôl y newid yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn rhoi trosolwg o'r materion y mae'r Bwrdd wedi'u trafod fel rhan o'r adolygiad ond y mae wedi penderfynu, yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law, i beidio â chynnig unrhyw ddiwygiadau i'r darpariaethau ar hyn o bryd. Er gwybodaeth, bydd rhai o'r materion hyn yn cael eu trafod fel rhan o adolygiad y Bwrdd o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Taliadau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Remuneration@assembly.wales
0300 200 6565

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

*Y Weithdrefn Ddisgyblu a'r Weithdrefn Gwyno*

Mae'r Bwrdd wedi cytuno i adolygu'r Weithdrefn Ddisgyblu a'r Weithdrefn Gwyno yn sgil cyhoeddi'r **Polisi Urddas a Pharch** newydd. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, trafododd y Bwrdd yr adborth cychwynnol a gafodd ar y ddwy weithdrefn, ac mae wedi cytuno i ymgynghori ar nifer o gynigion i ddiwygio'r ddwy weithdrefn. Mae manylion y cynigion ymgynghori hyn wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori.

*Ymateb i'r ymgynghoriad*

Byddai'r Bwrdd yn croesawu'ch sylwadau ar unrhyw un o'i gynigion i ddiwygio'r darpariaethau fel yr amlinellir uchod. Gofynnir ichi gyflwyno unrhyw ymatebion i'r cynigion hyn erbyn **13 Rhagfyr 2018** i lywio trafodaethau'r Bwrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol. Os oes gennych gwestiynau sy'n gysylltiedig â'r adolygiad neu'r ymgynghoriad, cysylltwch â'r **ysgrifenyddiaeth**. Dylech sicrhau eich bod wedi ystyried y ffordd y bydd y Bwrdd yn defnyddio'r wybodaeth a roddir gennych, sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori, cyn cyflwyno eich ymateb.

Mae croeso ichi gysylltu â'r **ysgrifenyddiaeth** os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y llythyr hwn.

Cofion gorau,



**Y Fonesig Dawn Primarolo**

**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.